RCSLT
WALES
CYMRU




Ei aelodau yw'r RCSLT.

***Diolch*** i'n holl aelodau sydd wedi cymryd rhan yn ein gwaith dylanwadu yn y flwyddyn ddiwethaf.

# Uchafbwyntiau RCSLT Cymru

# 2023/24

**I gymryd rhan yn ein gwaith:**

Ewch i dudalennau gwefan polisi Cymru **www.rcslt.org/Wales**

Ein dilyn ar **X @RCSLTWales**

Mynychu digwyddiad galw heibio rhithiol neu wyneb i wyneb.

# Gweithlu

**Codi ymwybyddiaeth o'r angen am wella cynllunio gweithlu.**

**Gorffennaf 2023** Digwyddiad gweithlu ar y cyd gyda 25 Coleg Brenhinol arall i ddathlu 75fed pen-blwydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

**Hydref 2023** Ymweliad y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol i brosiect cartrefi gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi ennill gwobrau.

**2023-24** Cwestiynau ysgrifenedig gan Aelodau o'r Senedd a chodi'r mater yng Nghwestiynau Prif Weinidog Cymru a Chwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol.




*Eluned Morgan AS gydag aelodau ar ei hymweliad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.*




*Mabon ap Gwynfor AS yn siarad gyda Pippa Cotterill ac aelod, Ria Bayliss, yn nigwyddiad GIG yn 75.*

### Effaith

Cynnydd o 12% yn nifer y lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith yn 2024/25, er y pwysau ar y gyllideb. Y cynnydd cyntaf ers 2020.

# Anhwylder Datblygu Iaith (DLD)

**Codi ymwybyddiaeth o DLD a rôl y proffesiwn.**

- Buom yn cydweithio gyda RADLD, Llais Rhieni yng Nghymru, NAPLIC ac aelodau i gynnal ein digwyddiad cyntaf erioed ar Ymwybyddiaeth Anhwylder Datblygu Iaith yn y Senedd ym mis Hydref 2013.
- Daeth 10 Aelod o'r Senedd i'r digwyddiad yn cynnwys y Gweinidog Iechyd a'r Gweinidog Addysg. Cafwyd y prif anerchiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cafwyd sylw gan BBC Cymru ar-lein, ar y radio ac ar y teledu.




*Canolfan Adnoddau Arbenigol o Ysgol Gynradd Coed y Brain yn y digwyddiad.*

### Effaith




# Plant a phobl ifanc

**Parhau i hyrwyddo gwaith y rhaglen Siarad Gyda Fi a chodi ymwybyddiaeth o effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu na chaiff eu diwallu a phwysigrwydd ymyriad cynnar.**

### Effaith

- Fe wnaethom ddylanwadu ar ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar bresenoldeb ysgolion sy'n awr yn cynnwys adran ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Cawsom gadarnhad y daw swydd Cydlynydd Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cenedlaethol yn swydd barhaol o fewn Llywodraeth Cymru.




*Affiche de la campagne Parlez-moi .*

# Diwrnod Ymwybyddiaeth o Lyncu



**Codi ymwybyddiaeth rôl therapyddion lleferydd ac iaith wrth gefnogi pobl gydag anghenion bwyta, yfed a llyncu.**

- **Mawrth 2024** Digwyddiad caffi Dysffagia yn Senedd Cymru i nodi'r Diwrnod Ymwybyddiaeth o Lyncu.
- Cyhoeddodd pedwar AS (un o bob un o'r prif bleidiau gwleidyddol) gynnwys penodol ar y cyfryngau cymdeithasol ar y dydd, yn dilyn ymweliadau i dimau therapi lleferydd ac iaith.
- Sylw ar Radio Cymru ar rôl therapyddion lleferydd ac iaith newydd-enedigol i nodi'r diwrnod ymwybyddiaeth.

**Effaith**

- Mynychodd bron draean o'r holl Aelodau o'r Senedd y digwyddiad yn Senedd Cymru.
- Datganiad 90 eiliad ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth o Lyncu ar lawr y Senedd

# Cyfiawnder

**Codi ymwybyddiaeth o rôl therapi lleferydd ac iaith o fewn y system cyfiawnder troseddol.**

- **Rhagfyr 2022** Tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gref i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru, a gynhaliodd ymchwiliad un-dydd ar faint anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ymysg pobl ifanc sydd wedi troseddu neu sydd mewn risg o droseddu.
- **Awst 2023** Ymweld â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Casnewydd gyda Jayne Bryant AS, Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru.

**Effaith**

- **Ebrill 2023** Fe wnaeth Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru gynnwys ein holl argymhellion allweddol yn eu hadroddiad terfynol.
- **Mehefin 2023** Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn siomedig ond cafwyd dadl gref ar yr adroddiad. Ymrwymodd nifer o Aelodau o'r Senedd i godi ymwybyddiaeth o'r angen am therapyddion lleferydd ac iaith o fewn y system cyfiawnder ieuenctid.
- **Ionawr 2024** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru uwch-gynhadledd ar y mater hwn.
- Cynnydd yn nifer y swyddi therapi lleferydd ac iaith o fewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.